# Swyddog Ymgysylltu Cynulleidfaoedd yr Awyr Dywyll

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government

**Cyfeirnod y swydd: PCCS00057E4MTE**
**Lleoliad: Parc Gwledig Loggerheads**
**Cyflog: Gradd 6, £16,836 - £17,405 y flwyddyn**
**Oriau: 18.5 yr wythnos**
**Contract: Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2028**
**Swydd allanol**

**Ariennir y prosiect yma gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae'n cael ei ddarparu gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.**

Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer secondiad gael caniatâd eu Rheolwr cyn ymgeisio am y swydd.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio gyda Pharciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol ledled Gogledd Cymru ar brosiect i wella ansawdd awyr y nos a'i fioamrywiaeth.

Mae awyr y nos yng Nghymru ymysg yr awyr tywyllaf yn y byd. Bydd y swydd hon yn cefnogi prosiect cyffrous newydd i wella ac amddiffyn ansawdd yr awyr yma ymhellach, yn ogystal â hyrwyddo gwaith da Partneriaeth NOS. Mae'n gyfle i weithio yn nhirweddau mwyaf prydferth a bioamrywiol Cymru mewn ardal gadwraeth newydd gyffrous.

Mae'r penodiad yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon boddhaol.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar y swydd, ffoniwch Ceri Lloyd ar 07909934320.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein trwy ein gwefan www.sirddinbych.gov.uk. Am ddulliau eraill o

# Dark Skies Audience Engagement Officer

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government

**Job reference: PCCS00057E4MTE**
**Location: Loggerheads Country Park**
**Salary: Grade 6, £16,836 - £17,405 per annum**
**Hours: 18.5 per week**
**Contract: Fixed Term until 31st March 2028**
**External vacancy**

**This project is funded by the Nature Networks Programme. It is being delivered by the Heritage Fund, on behalf of the Welsh Government.**

Candidates who wish to be considered for a secondment opportunity for this role must gain permission from their manager prior to applying.

This is an exciting opportunity to work with the National Parks and National Landscape's across North Wales on a project to improve the quality of our night skies and its biodiversity.

Wales' night skies are among some of the darkest in the world. This post will support an exciting new project to improve and protect the quality of these skies further as well promoting the good work of the NOS Partnership. It is an opportunity to work in Wales' most beautiful and biodiverse landscapes across in an exciting new area of conservation.

Appointment subject to Disclosure & Barring Service Check and satisfactory references.

If you would like to discuss any aspect of the post, please call Ceri Lloyd on 07909934320.

If you are interested in this vacancy, please apply on-line via the website www.denbighshire.gov.uk. For alternative

wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01824 706100.

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ni ateb pob cais. Os nad ydych chi wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych chi wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

**Dyddiad Cau: 22/10 /2026**

**Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i Gyfleoedd Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.**

methods of applying please contact Customer Services on 01824 706101.

Candidates must complete our application form to be considered. We regret that we are unable to reply to all applications. If you have not received a reply within three weeks of the closing date, you must assume that you have not been short listed for interview.

**Closing Date: 22/10/2026**

**Denbighshire County Council is committed to Equal Opportunities and its Welsh Language Standards. We welcome applications in the Welsh Language and application forms received in the Welsh Language will not be treated less favourably than an application form submitted in English.**

| | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR DDINBYCH SWYDD-DDISGRIFIAD** | |
| **Teitl y Swydd:** | **Swyddog Ymgysylltu Cynulleidfaoedd yr Awyr Dywyll** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 6 yn amodol ar werthusiad** |
| **Gwasanaeth:** | **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** |
| **Maes Gwasanaeth:** | **Gwasanaeth Cefn Gwlad - AHNE** |
| **Yn atebol i:** | **Swyddog Datblygu Cynaliadwy** |
| **Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:** | **04902** |
| **Categori Iaith Gymraeg:** | **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol – lefel 4**<br>**Lefelau o ran sgiliau Cymraeg** |

## Pwrpas y Swydd

Sicrhawyd cyllid drwy raglen Cronfa Treftadaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol Gogledd Cymru, drwy Bartneriaeth Prosiect Nos, i gydweithio ar brosiect i ganfod a mynd i'r afael ag effeithiau ecolegol goleuadau artiffisial yn y nos (ALAN). Bydd deiliad y swydd hon yn llywio datblygiad a darpariaeth cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i godi proffil a gwybodaeth am y mater hwn, ac i ysgogi newid mewn ymddygiad.

## Prif Gyfrifoldebau

- Helpu cyflwyno Prosiect Datblygu Rhwydweithiau'r Nos fel y nodir yng Nghynllun Ymgysylltu'r Prosiect.
- Cynhyrchu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y prosiect a monitro ei gynnydd.
- Darparu adroddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf i Bartneriaeth y Prosiect yn rheolaidd ac yn ôl yr angen.
- Meithrin cyswllt â'r gymuned, sefydliadau partner, tirfeddianwyr, masnachwyr a grwpiau diddordeb ar draws Tirweddau Dynodedig Gogledd Cymru wrth ddatblygu'r rhaglen ymgysylltu.
- Hysbysebu'r digwyddiadau a'r prosiectau dan Brosiect Datblygu Rhwydweithiau'r Nos.
- Meithrin cyswllt â thîm Cyfathrebu'r Tirweddau Dynodedig i hyrwyddo gwaith da'r prosiect.
- Ysgrifennu a rhyddhau datganiadau i'r wasg.
- Sicrhau y cydymffurfir â gofynion digidol y Gronfa Treftadaeth mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd digidol a gynhyrchir.
- Datblygu a chyflwyno amrediad o ddigwyddiadau yn Nhirweddau Dynodedig Gogledd Cymru, i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rwydweithiau ecolegol y nos.
- Ceisio cyngor am arferion da gan bartneriaid y prosiect o ran gweithgareddau newid ymddygiad effeithiol.

- Creu deunyddiau darllen dwyieithog i gefnogi amrywiol agweddau ar y rhaglen waith, gan gynnwys canllawiau ar gyfer cymunedau a gwirfoddolwyr.
- Caffael, sicrhau a rheoli prosiectau dylunio graffeg a chontractau argraffu a chynhyrchu cysylltiedig.
- Creu, gweithredu a chyflwyno cynllun cyfryngau cymdeithasol.
- Helpu staff a phartneriaid eraill i baratoi briffiau a thendrau, penodi contractwyr a goruchwylio'u gwaith.
- Casglu data monitro sy'n ymwneud â Phrosiect Datblygu Rhwydweithiau'r Nos.
- Helpu'r Swyddog Rhwydweithiau Ecolegol Tywyll i sicrhau bod y Prosiect yn bodloni gofynion cyllid Rhwydweithiau Natur.
- Cydweithio â'r Dirwedd Genedlaethol a chydweithwyr eraill i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwirfoddoli, e.e. hyfforddi gwirfoddolwyr i fonitro rhywogaethau a chasglu data.
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau eraill sy'n hyrwyddo pwysigrwydd awyr dywyll y nos.
- Cydlynu a chefnogi rhaglen fonitro ar gyfer ansawdd yr awyr a bioamrywiaeth mewn lleoliadau allweddol ar draws y bartneriaeth.
- Cynnal a chefnogi unrhyw waith arall sy'n berthnasol i gefnogi cyflwyniad a datblygiad y rhaglen.

**Adnoddau / Offer / Deunyddiau**

- Gliniadur
- Ffôn symudol

**Goruchwylio / Rheoli Pobl**

Amherthnasol

**Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad**

- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwd dros dirweddau Cymru ac yn awyddus i gyfrannu at eu cadwraeth.
- Bydd yn aelod gwych o dîm ac yn llawn cymhelliant.
- Bydd yn gallu ymdrin â phobl yn naturiol ac yn gallu meithrin perthnasoedd, cyflwyno adroddiadau a chyfathrebu gydag amrediad eang o bobl (drwy bob cyfrwng cydnabyddedig).
- Bydd yn dangos blaengaredd ac yn gallu cynllunio ei waith ei hun.
- Bydd yn dda am gyfathrebu ac yn datblygu a chynnal perthnasoedd da gyda'r holl Dirweddau Dynodedig yng Nghymru.
- Bydd yn gallu gweithio dan bwysau a chyflawni o fewn terfynau amser.
- Bydd ganddo hanes blaenorol o gyflawni prosiectau'n llwyddiannus.

## Amodau Gwaith Arbennig

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd deithio i Dirweddau Dynodedig ar draws Gogledd Cymru yn ôl yr angen.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob aelod staff newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; clirio DBS, cyflwyno 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, darparu tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, a thystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth modern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff camfanteisio ei adnabod.

## Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol Cymru wedi bod yn cydweithio i hyrwyddo pwysigrwydd awyr dywyll y nos a gwella ansawdd yr awyr ar hyd a lled Cymru. Arweinir y prosiect hwn gan Bartneriaeth Prosiect Nos yng Ngogledd Cymru, ac mae'n dod â Thirweddau Dynodedig ynghyd i gyflwyno rhaglen waith uchelgeisiol a fydd yn datblygu ac yn profi dulliau o ganfod rhwydweithiau ecolegol tywyll a thargedu meysydd gwaith ôl-osod a fydd yn arwain at y budd mwyaf i fywyd gwyllt. Un rhan allweddol o'r prosiect hwn yw ennyn diddordeb amrediad eang o gynulleidfaoedd ar hyd a lled ardal y prosiect, er mwyn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ac ysgogi newid mewn ymddygiad.  Ariennir y Prosiect drwy raglen Cronfa Treftadaeth Llywodraeth Cymru.

# MANYLION AM YR UNIGOLYN CYNGOR SIR DDINBYCH

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Cânt eu defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hyn. Dim ond os ydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol) y byddwch chi'n cael eich cynnwys ar y rhestr fer.

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Swyddog Ymgysylltu Cynulleidfaoedd yr Awyr Dywyll** |
| **Gwasanaeth:** | **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 6 yn amodol ar werthusiad** |

| **MEINI PRAWF** | **HANFODOL** | **DYMUNOL** | **DULL ASESU** Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati |
|---|---|---|---|
| **1. ADDYSG A CHYMWYSTERAU** | Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol neu'n gallu dangos profiad cyfatebol. | | Ffurflen Gais |
| **2. PROFIAD PERTHNASOL** | Profiad o gydlynu a chyflawni prosiectau<br><br>Profiad o weithio gyda chontractwyr<br><br>Profiad o reoli cyllideb yn effeithiol<br><br>Profiad o gaffael nwyddau a gwasanaethau | Profiad o gasglu data/gwybodaeth a chynhyrchu adroddiadau<br><br>Profiad yn y maes cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus<br><br>Profiad o weithio yn y sector amgylcheddol ar brosiectau tirwedd | Ffurflen Gais |
| **3. GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD** | Gwybodaeth am dechnegau ar gyfer cynllunio, cyflwyno a monitro rhaglenni gwaith<br><br>Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i gyfathrebu syniadau neu | Dealltwriaeth o effaith ALAN ar fioamrywiaeth<br><br>Dealltwriaeth eang o waith yn y maes hwn | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wybodaeth gymhleth yn glir<br><br>Gallu cynllunio a threfnu eich gwaith eich hun a gwaith eraill<br><br>Dealltwriaeth o dechnegau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu<br><br>Sgiliau TG rhagorol a'r gallu i gyfrannu at y gwaith a gwblheir ar y cyfryngau cymdeithasol | | |
| **4. NODWEDDION PERSONOL** | Cydweithio - Gallu gweithio'n dda mewn tîm a meithrin perthnasoedd llwyddiannus gyda phartneriaid allweddol<br><br>Cymhelliant – Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn terfynau amser, a gallu eich cymell eich hun a gweithio ar eich liwt eich hun yn ôl yr angen<br><br>Brwdfrydedd - Teimlo'n angerddol am gael effaith gadarnhaol ar dirweddau dynodedig Cymru<br><br>Cydwybodol – Llawn cymhelliant i gyrraedd y safonau uchaf | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **5. GOFYNION ERAILL** | Rhugl yn y Gymraeg | | |

# DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL JOB DESCRIPTION

| | |
|---|---|
| **Job Title:** | **Dark Skies Audience Engagement Officer** |
| **Grade:** | **Grade 6 Subject to evaluation** |
| **Service:** | **Planning, Public Protection and Countryside** |
| **Service Area:** | **Countryside Service - AONB** |
| **Responsible to:** | **Sustainable Development Officer** |
| **Job ID Number / Date Issued:** | **04902** |
| **Welsh Language Category:** | **Welsh language skills are essential – level 4**<br>**Welsh Language Levels** |

## Job Purpose

Funding has been secured through the Welsh Government's Heritage Fund programme for the National Landscape's and National Parks in North Wales, through the Prosiect Nos Partnership, to collaborate on a project to identify and address the ecological impacts of artificial light at night (ALAN). This post will steer the development and delivery of an effective communication and engagement plan to raise the profile and knowledge of this issue and to engender behaviour change.

## Principal Accountabilities and Responsibilities

- To assist in the delivery of the Nocturnal Networks Development Project as identified in the Project Engagement Plan.
- To produce a communications and engagement plan for the project and monitors it progress
- Provide reports and updates to the Project Partnership on a regular basis and as and when required.
- To liaise with the community, partner organisations, landowners, trades people and interest groups across the Designated Landscapes (DL) of North Wales in the development of the engagement programme.
- To publicise the events and projects under the Nocturnal Networks Development Project.
- Liaise with the DLs' Communications team to promote the good work of the project.
- Write and disseminate press releases
- Ensure that the digital requirements of the Heritage Fund are complied with for any digital material produced.
- To develop and deliver a range of events in the DLs of North Wales to increase awareness and understanding of nocturnal ecological networks.
- To seek good practice advice from project partners in effective behaviour change activities
- Create bilingual literature to support various aspects of the works programme including guides for communities and volunteers.
- Procure, source and project manage graphic design and associated print and production contracts

- Create, implement and deliver a social media plan
- To assist other staff and partners to prepare brief and tenders, appoint and supervise the work of contractors.
- To gather monitoring data relating to the Nocturnal Networks Development Project.
- Support the Dark Ecological Networks Officer in ensuring the Project meets the requirements of Nature Networks funding.
- Work with National Landscape and other colleagues to maximise volunteer opportunities, such as training volunteers in species monitoring and data collection.
- Support events and other activities that promote the importance of dark night skies.
- Co-ordinate and support a monitoring programme for sky quality and biodiversity in key locations across the partnership.
- To undertake and support any other works relating to supporting the delivery and development of the programme.

## Resources/Equipment/Material

- Laptop
- Mobile phone

## Supervision/Management of People

N/A

## Knowledge, Skills, Training and Experience

- The successful applicant will be passionate about the landscapes of Wales and keen to contribute to its conservation
- They will be an excellent team player and be self-motivated.
- They will be a natural ‘people person’ and be able to build relationships and report and communicate to (in all recognised mediums) a wide range of people.
- They will show initiative and be able to plan their own work,
- They will be a good communicator and will develop and maintain good relations with all Designated Landscapes in Wales.
- They will be able to work under pressure and deliver to defined deadlines.
- They will have a proven track record in project delivery.

## Special Working Conditions

Requirement to travel to Designated Landscapes across North Wales as required

## Employment Checks/ Specific Requirements

All new starters are required to undergo our standard safer recruitment checks; DBS clearance, 2 satisfactory references covering 3 years employment, evidence of essential qualifications, evidence of Right to Work in the UK.

Denbighshire County Council recognises its obligations to safeguard children and adults together with preventing slavery and human trafficking and will do all in its power to prevent slavery and human trafficking within its business. Modern slavery can take many forms including the trafficking of people, forced labour, servitude and slavery.

Safeguarding is everyone's business and all Denbighshire employees are required to work in accordance with the Council's Child / Adult Safeguarding policies and procedures and have a duty to report any concerns which may be noted during the course of their duties and are asked to be alert to the signs of exploitation. Concerns should be raised via their Designated Safeguarding Manager in order that the Council can take prompt action when exploitation is identified.

## Vision/Context

The National Parks and NL's in Wales have been working collaboratively to promote the importance of our dark night skies and to improve sky quality across Wales. This project is led by the Prosiect Nos Partnership in North Wales, bringing the Designated Landscapes together to deliver an ambitious programme of works that will develop and test methods for identifying dark ecological networks and targeting areas of retrofitting work that will have the greatest benefits for wildlife. A key part of the project is the engagement of a wide range of audiences across the project area to increase knowledge and understanding and engender behaviour change. The Project is funded through the Welsh Governments Heritage Fund programme.

# DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL PERSON SPECIFICATION

The Person Specification sets out the skills, knowledge and experience that are considered to be necessary to carry out the duties of the post effectively. It will be used in the short-listing and interview process for this post. You should demonstrate on your application form how you meet these criteria as you will only be shortlisted if you meet all of the essential criteria (and desirable criteria where applicable).

| | |
|---|---|
| **Post Title:** | **Dark Skies Audience Engagement Officer** |
| **Service** | **Planning, Public Protection and Countryside** |
| **Grade:** | **Grade 6 Subject to evaluation** |

| **CRITERIA** | **ESSENTIAL** | **DESIRABLE** | **METHOD OF ASSESSMENT** Application Form / Interview / Presentation / References etc |
|---|---|---|---|
| **1. EDUCATION & QUALIFICATIONS** | A degree or equivalent in a relevant field or able to demonstrate equivalent experience | | Application Form |
| **2. RELEVANT EXPERIENCE** | Experience of Project Co-ordination and delivery<br><br>Experience of working with contractors<br><br>Experience of effective budget management<br><br>Experience of procurement of goods and services | Experience of gaining data/intelligence and producing reports<br><br>Experience of delivering communication and PR<br><br>Experience of working in the environmental sector on landscape scale projects. | Application Form |
| **3. JOB RELATED KNOWLEDGE & SKILLS** | Knowledge of techniques for planning, delivering and monitoring programmes of work.<br><br>Excellent written and oral communication skills, with the ability to clearly communicate complex ideas or information | Understand the impact of ALAN on biodiversity. Have a broad understanding of work in this area. | Application Form and Interview |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ability to plan and organize own work and that of others<br><br>Understanding of techniques for undertaking consultation and engagement<br><br>Excellent IT skills and ability to contribute to work carried out on social media | | |
| **4. PERSONAL QUALITIES** | Collaborative - Ability to work well in a team environment and make successful relationships with key partners<br><br>Driven- Ability to work under pressure and to deadlines, to show initiative and to work alone as necessary<br><br>Enthusiasm- passionate about making a positive impact on the designated landscapes of Wales.<br><br>Conscientious - motivated to deliver to a high standard. | | Application Form and Interview |
| **5. OTHER REQUIREMENTS** | Fluent in Welsh language | | |